# ADRAN 2 – YMRWYMIADAU'R CYNLLUN

## RHEOLAU CYMHWYSEDD

I fod yn gymwys am y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy:.

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Byddwch wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein.
- Byddwch yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol.
- Os yn gwneud cais fel ffermwr organig, byddwch wedi'ch ardystio gyda chorff rheoli organig.

**Os ydych yn gwneud cais fel grŵp:**

- Bydd yn rhaid i pob ffermwr sy'n rhan o'r grŵp fodloni'r amodau uchod.
- Bydd y grŵp wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a chael CRN ar gyfer y grŵp.
- Rhaid Datgan Diddordeb o dan y CRN a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r grŵp.

**SYLWADAU AR Y CYNLLUN**

- Mae'n rhaid ichi fodloni gofynion Nodiadau Canllaw Technegol i Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus, sydd ar gael yma https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-2020-canllaw-technegol-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus, wrth gyflwyno datganiad o ddiddordeb, cais llawn neu gais am gyllid.
- Mae’n rhaid i chi gydymffurfio â’r gofynion a nodir yn y Contract hwn.
- Mae'n rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau drwy eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr sy’n cynnig y contract gyda'r holl dystiolaeth ategol i fod yn gymwys i gael eich ystyried am daliad.
- Mae'n rhaid i anfonebau a thystiolaeth ategol o daliadau gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad sy'n cael ei nodi yn y llythyr sy’n cynnig y contract i chi i gefnogi eich hawliad drwy eich cyfrif RPW Ar-lein neu drwy'r post.
- Mae’n rhaid i chi fodloni unrhyw ymrwymiadau cyfreithiol a roddir dan gyfraith yr UE neu’r DU, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.
- Mae'n rhaid i chi ddarparu Proffil Cyflenwi yn cadarnhau pryd y byddwch yn hawlio taliad ar gyfer yr holl eitemau buddsoddi.
- Ni chewch waredu ar, trosglwyddo na gwerthu unrhyw gyfarpar a brynir gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, wrth gyflawni’r prosiect nac am bum mlynedd ar ôl y dyddiad talu.
- Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid ichi gydymffurfio â’r rheolau ar wariant cymwys.
- Peidiwch â dechrau'r gwaith nes eich bod wedi derbyn y contract.
- Os bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu ichi fynd yn eich blaen ar eich menter eich hun, rhaid ichi fodloni’r holl ofynion mentro
- Mae’n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau sy’n rhan o’r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.
- Mae’n rhaid i’r eitemau fodloni’r fanyleb ofynnol a ddisgrifir yn Atodiad A yr SPG.
- Ni chewch ddefnyddio eitemau sydd wedi’u prynu drwy’r SPG ar gyfer gweithgareddau contractio amaethyddol.
- Mae cytundebau cyllid yn dderbyniol o dan yr SBG, cyn belled â bod gennych anfoneb gyda chyfeiriad eich busnes masnachu arni ar gyfer yr eitemau (ac nid y cwmni cyllid).
- Mae offer ail law yn gymwys am yr SPG ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol, eu bod yn addas at y diben a bod ganddynt o leiaf 5 mlynedd o’u hoes yn weddill.

- Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed o ffynonellau'r UE neu'r DU) ar gyfer y prosiect o dan y contract hwn. Os cewch arian cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU i'ch helpu â chostau'r prosiect, caiff ei dynnu o'r SPG.

- Rydych yn ymrwymo i fodloni, yn ôl yr angen, unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau caniatâd cynllunio.

- Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion ymgeisio a hawlio am y grant hwn, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith blynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.

- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.

- Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y cyfraniad a wnaed gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei ariannu.

- Dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, swm y grant a roddwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

# ADRAN 3 - TELERAU AC AMODAU'R GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY

## Diffiniadau

**Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol yn y contract hwn:**

**“Cynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol”** – unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy’n gweithredu busnes sy’n cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol:

- âr
- eidion
- cynnyrch llaeth
- geifr
- garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg a dyfrboneg)
- moch
- dofednod
- defaid
- cadw gwenyn

Ystyr **“Buddiolwr"** a **“Buddiolwyr"** yw gweithredwr, corff neu gwmni, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n gyfrifol am ddechrau, neu ddechrau a rhoi gweithrediadau ar waith, neu dderbyn cymorth o dan y Contract;

Ystyr **“Eitem”** yw darn o gyfarpar cyfalaf neu beiriant sydd wedi’i gynnwys ar y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys a ddiffinnir ymlaen llaw ac a nodir yn Atodiad A rheolau a chanllaw’r SPG.

**“Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020"** yw'r system a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gyflenwi gweithgareddau dan y rheoliadau sy'n cefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig, gan annog rheolaeth gynaliadwy ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd;

Ystyr **"prosiect"** yw’r set gyfan o Waith Cyfalaf sy'n rhan o bob Contract SPG.

## Cynnig y Contract – Rhoi Contract

Bydd Gweinidogion Cymru'n cynnig contract SPG fydd yn amodol bob amser ar y canlynol:

1. I gadarnhau’ch bod yn derbyn y grant a roddir i chi, cliciwch ar y botwm glas ar RPW Ar-lein o fewn 30 diwrnod i ddyddiad llythyr cynnig y Contract. Rhaid llenwi’r Proffil Cyflenwi pan fyddwch yn derbyn y Contract gan gadarnhau pryd y byddwch yn hawlio taliadau oddi wrth Lywodraeth Cymru.
2. Mae’r Contract yn cael ei gynnig ar sail y datganiadau a wnaethoch chi neu’ch cynrychiolwyr ar y cais ar-lein, y dystiolaeth ategol a’r ohebiaeth a ddilynodd:

**Mae’n drosedd gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol.**

3. Rhaid i’r buddiolwr neu’r person sy'n gweithredu ar ran buddiolwyr beidio â dechrau unrhyw waith ar y prosiect cyn derbyn y Contract sy’n cael ei gynnig.
4. Rhaid cwblhau’r prosiectau o fewn 2 flynedd o ddyddiad cynnig y contract neu erbyn 30 Mehefin 2023, pa un bynnag ddaw gyntaf.
5. Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys, ble yn berthnasol, leoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
6. Ni chewch waredu ar, trosglwyddo na gwerthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynir gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, wrth gyflawni’r prosiect nac am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.

## Hawliadau a Thaliadau

### Gwneud Taliadau’r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud taliadau’r SPG fydd yn amodol bob amser ar y canlynol:

1. Mae'r buddiolwr wedi derbyn contract SPG o fewn 30 niwrnod i gael cynnig contract.
2. Os bydd Llywodraeth Cymru wedi cynnig bod y buddiolwr yn cael mynd yn ei flaen ar ei fenter ei hun cyn cynnig y contract, rhaid i’r hawliad a gyflwynir fodloni’r holl ofynion mentro
3. Mae'n rhaid i’r holl eitemau buddsoddi a restrir yn y tabl yn Adran 1 y Contract gael eu cwblhau a'u hawlio.
4. Dylid cwblhau’r prosiectau o fewn yr amserlen y byddwch wedi cytuno arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch ei newid heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.
5. Rhaid hawlio’r holl eitemau buddsoddi yn unol â'r proffil cyflenwi ac o fewn 2 flynedd o ddyddiad cynnig y contract neu erbyn 30 Mehefin 2023, pa un bynnag ddaw gyntaf.
6. Rhaid hawlio ar y dudalen hawlio ar RPW Ar-lein a rhaid atodi’r holl ddogfennau angenrheidiol.
7. Rhaid cyflwyno’r hawliadau yn unol â’r Proffil Cyflawni. Ni chewch newid amseriad eich hawliadau na’u gwerth heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
8. Gellir hawlio'r eitemau buddsoddi un ar y tro. Cyn hawlio am eitem buddsoddi, rhaid i'r buddiolwr sicrhau bod yr eitem wedi'i phrynu, wedi’i gosod ac wedi’i chwblhau.
9. Bydd y Buddiolwr wedi cwblhau a chyflwyno hawliad am SPG er mwyn cael parhau’n gymwys am daliad ac i gael taliad.
10. Y buddiolwr sy'n gyfrifol am gyflwyno pob anfoneb a thystiolaeth o daliad, ar gyfer pob eitem buddsoddi sy'n cael ei hawlio, er mwyn i hawliad gael ei ystyried yn ddilys.
11. Rhaid nodi’r gair ‘anfoneb’ yn glir ar bob anfoneb a rhaid i bob un gynnwys y canlynol:
    - rhif adnabod unigryw
    - enw a chyfeiriad cwmni’r buddiolwr a’i fanylion cyswllt
    - enw a chyfeiriad anfonebu’r cwmni

- disgrifiad clir o bob elfen o’r hyn yr ydych yn talu amdano
- dyddiad darparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y symiau sy'n cael eu codi
- y TAW, os yw'n gymwys
- y cyfanswm sy'n ddyledus

12. Dylech brofi’ch bod wedi talu trwy atodi cyfriflenni banc. Os nad yw gwerth y taliad yn cyfateb i werth yr anfoneb, bydd angen rhoi manylion y taliad cyfan gydag anfonebau ategol. Os ydych yn talu â siec, yna bydd angen sganio'r siec cyn ei rhoi i'r cyflenwr, yn ogystal â'r gyfriflen banc.
13. Y Buddiolwr fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cwblhau ac yn cyflwyno ei hawliad SPG erbyn y dyddiad a nodir yn llythyr cynnig y Contract.
14. Rhaid prynu pob eitem sy'n cael ei hawlio ar ôl dyddiad derbyn y Contract oni bai’ch bod yn ei phrynu ar eich menter eich hun a’ch bod wedi bodloni’r gofynion mentro .
15. Os yw’r buddiolwr yn grŵp, cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau bod yr holl amodau uchod wedi'u bodloni.
16. Os oes angen tystiolaeth bod caniatâd cynllunio terfynol wedi’i roi, ni fydd y buddiolwr yn cael hawlio am yr eitem fuddsoddi nes y bydd wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael y caniatâd hwnnw.
17. Ni fydd y Buddiolwr wedi derbyn taliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn perthynas â thaliad sydd wedi’i wneud neu wedi’i dderbyn sy’n gysylltiedig â’r Contract.
18. Nid yw'r Buddiolwr wedi ffugio'r amodau sydd angen eu bodloni er mwyn derbyn taliadau.
19. Nid yw'r Buddiolwr wedi gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol, na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i Weinidogion Cymru.
20. Cyfrifir y taliadau yn unol ag Atodlen y Contract, cyn belled â bod yr holl eitemau sydd wedi’u rhestru wedi’u prynu yn ôl y fanyleb gywir. Caiff y taliadau eu gwneud ar ôl dilysu'r hawliad a’r dogfennau ategol yn llwyddiannus yn sgil cynnal archwiliad gweinyddol.
21. Gallai hawliad y Buddiolwr gael ei ddewis ar gyfer archwiliad ffisegol neu weinyddol cyn neu ar ôl gwneud y taliad. Bydd yr holl fanylion yng nghais y buddiolwr, y manylion yn yr hawliad a'r datganiadau gafodd eu gwneud wrth gyflwyno'r cais a'r hawliad i gyd yn cael eu harchwilio, yn ogystal â dyddiad prynu'r eitemau buddsoddi, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r buddsoddiadau (ble yn briodol).
22. Bydd holl Daliadau’r SPG yn cael eu talu mewn sterling gan Weinidogion Cymru drwy system Clirio Awtomatig y Bancwyr (BACS).

**Cymorth Gwladwriaethol**

1. Nid yw Erthyglau 107, 108 nac 109 y TFEU yn berthnasol i'r grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn os cawsant eu gwneud yn unol â Rheoliad (UE) rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau Datblygu Gwledig), ac o fewn cwmpas Erthygl 42 y TFEU.
   Mae Erthygl 42 y TFEU yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd.

2. Bydd grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn yn cydymffurfio â'r cyfraddau ymyrraeth uchaf a'r terfynau cymorth a nodir yn Atodiad II y Rheoliadau Datblygu Gwledig.

### Hawliadau anghywir a chosbau

1. Mae gan y Buddiolwr gyfrifoldeb i sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn rhifyddol gywir a'i fod am eitemau buddsoddi sydd wedi'u rhestru yn y tabl yn Adran 1 y Contract yn unig.
2. Rhaid prynu neu ddechrau pob eitem sy'n cael ei hawlio ar ôl derbyn y contract.
3. Os yw'r Buddiolwr wedi prynu eitem o'r math anghywir neu sydd â'r fanyleb anghywir; neu wedi prynu eitemau cyn cyflwyno'r cais; neu heb brynu'r holl eitemau sydd wedi'u rhestru yn y Contract, bydd yr hawliad yn anghywir. Byddwn yn gwrthod yr hawliad cyfan ac os oes grant wedi'i dalu ichi, byddwn yn mynnu'ch bod yn ei dalu yn ôl.

### Troseddau

1. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn sefydlu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Cynllun SPG. Mae enghreifftiau o droseddau'n cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n ddi-hid, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## Newidiadau'r Contract

### Newidiadau i Delerau ac Amodau'r Contract

1. Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i'r Contract hwn i ystyried y cyngor gwyddonol diweddaraf, i addasu rheolau'r cynllun i ystyried unrhyw newid yn **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**, neu i adolygu cyfraddau talu, ymysg pethau eraill.
2. Bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw newidiadau yn y cylchlythyr Gwlad, ar wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru a lle bo angen byddant yn cysylltu â Buddiolwyr trwy eu cyfrifon RPW ar-lein.
3. Mae'n ofynnol i'r Buddiolwr gadw at unrhyw newidiadau a wneir i'r Contract hwn pe bai unrhyw amrywiad neu addasiad statudol i'r Rheoliadau ac yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

### Terfynu

1. Terfynu gan Weinidogion Cymru
2. Gall Gweinidogion Cymru derfynu'r Contract hwn dan yr amgylchiadau canlynol:

   i) ble mae Gweinidogion Cymru'n arfer eu pwerau yn unol â Chymalau 4.1

   ii) fel rhan o ddisgresiwn absoliwt **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu gyfnod unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru ddilynol;

   iii) diwedd rhaglen bresennol **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu unrhyw gyfnod Rhaglen Cymunedau Gwledig ddilynol;

iv) lle bo newidiadau i **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu gyfnod Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru ddilynol;

v) lle mae newidiadau i ddarpariaethau cyllidebol Gweinidogion Cymru'n gwneud newidiadau i weithrediad Cynllun yr SPG yn angenrheidiol.

**Terfynu gan y Buddiolwr**

**1.** Os digwydd i'r Buddiolwr derfynu'r Contract hwn cyn i dymor yr ymrwymiad ddod i ben, bydd Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Rheoliadau, yn cymryd camau i adennill taliadau a wnaed i'r Buddiolwr dan y Contract gyda llog.

Gall Llywodraeth Cymru ddod â'r Contract hwn i ben ar unrhyw adeg wedi rhoi 14 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i'r buddiolwr. Pan roddir rhybudd, bydd y cytundeb yn cael ei derfynu wedi i gyfnod y rhybudd ddod i ben.

2. Lle bo unrhyw gymhorthdal wedi cael ei dalu, gellir ei adennill drwy ofyn am swm sy’n cyfateb i’r cyfan o’r taliad hwnnw neu unrhyw ran ohono:

i) Os cafodd swyddogion a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru neu’r sawl y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 eu gwrthod rhag cael mynd i safle’r prosiect neu weld cofnodion.

ii) Os canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd yn anwir neu’n gamarweiniol mewn rhyw fodd sylweddol;

iii) Os yw’r buddiolwr a/neu ei gynrychiolydd yn fwriadol neu drwy esgeulustod yn gyfrifol am afreoleidd-dra wrth gyflawni’r cytundeb a thrwy dwyll, llygredd neu unrhyw weithred neu anweithred anghyfreithlon arall o eiddo’r buddiolwr, wedi peri i Lywodraeth Cymru a/neu yr Undeb Ewropeaidd ddioddef colled ariannol;

iv) Os yw’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd wedi peidio, o fewn y cyfnod a bennwyd gan Weinidogion Cymru, â darparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdani;

v) Os bu newid sylweddol yn natur, maint, cost neu amseriad y prosiect;

vi) Os oes gan Weinidogion Cymru le rhesymol i gredu nad oedd neu nad yw y prosiect yn cael ei gyflawni’n briodol gyda’r bwriad o fodloni amcanion y prosiect yn unol â’r hyn a nodwyd yn y cais;

vii) Os oes neu os bu oedi afresymol gyda’r prosiect neu lle bo’n annhebygol y bydd yn cael ei gwblhau erbyn y dyddiad cwblhau a nodwyd yn y llythyr cynnig grant a’r Proffil Cyflenwi y cytunwyd arno;

viii) Os yw archwiliad mewnol gan Weinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio, y Comisiwn Ewropeaidd neu’r Llys Archwilwyr yn canfod amgylchiadau lle byddai’n briodol dad-ymrwymo’r grant, yn llawn neu’n rhannol, neu os bydd y Comisiwn mewn rhyw fodd arall yn mynnu bod cymhorthdal yr EAFRD yn cael ei atal, ei leihau, ei ganslo neu ei adennill;

ix) Os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cymorth yn torri rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Gymuned Ewropeaidd neu os bydd Awdurdodau’r Gymuned Ewropeaidd o’r farn na ddylid fod wedi talu unrhyw grant a dalwyd; neu os bydd

penderfyniad yn Llys Cyfiawnder Ewrop yn golygu bod yn rhaid atal, lleihau, canslo neu adennill taliad;

x) Yn ystod ei oes economaidd, os bydd y Prosiect yn cael ei newid yn sylweddol, a ddiffinnir fel cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw y rhai a enwir yn y cais neu os bydd ei berchennog yn newid. Yr oes economaidd yw'r cyfnod hyd at daliad olaf y grant neu gyflawni'r targedau olaf o blith y rhai a enwir yn y Proffil Cyflenwi neu 5 mlynedd o ddyddiad gorffen y prosiect pa un bynnag sydd hwyraf;

xi) Os o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad y llythyr contract hwn ac yn ystod oes economaidd y Prosiect, y digwydd unrhyw rai o'r digwyddiadau canlynol, y rhoddir gwybod cyn gynted â phosibl i Weinidigion Cymru amdanynt:

  (i) bod y buddiolwr yn peidio â bod yn is-gwmni i unrhyw gwmni y mae'n is-gwmni iddo ar ddyddiad y llythyr hwn neu fod y buddiolwr yn mynd yn is-gwmni i unrhyw gwmni nad yw'n is-gwmni iddo ar ddyddiad y llythyr hwn. Dehonglir y gair "is-gwmni" yn unol â'r diffiniad yn Adran 736 Deddf Cwmnïau 1985 fel y'i hamnewidiwyd gan Adran 144(1) Deddf Cwmnïau 1989;

  (ii) bod y buddiolwr yn destun cynnig ar gyfer trefniant gwirfoddol neu y dygwyd deiseb ar gyfer Gorchymyn Gweinyddu neu ddeiseb ar gyfer Gorchymyn Dirwyn i Ben yn ei erbyn neu ei fod yn gwneud penderfyniad i ddirwyn i ben neu yn gwneud unrhyw gyfansoddiad, trefniant, trawsgludiad neu aseiniad er budd ei gredydwyr neu yn honni gwneud hynny, neu os penodir derbynnydd neu unrhyw unigolyn arall mewn perthynas â'i ymgymeriad neu unrhyw eiddo y mae'n berchen arno.

**Pan ddaw'r cytundeb i ben, bydd y buddiolwr yn:**

a) ad-dalu cyn pen 28 diwrnod gwaith y cyfan neu ran o unrhyw grant a dalwyd nad yw ar ddyddiad terfynu'r cytundeb wedi cael ei wario at ddibenion cymeradwy

b) cydymffurfio â darpariaethau unrhyw hawliad i ad-dalu gan Weinidogion Cymru.

## Archwiliadau a Chadw Cofnodion

1. Bydd Gweinidogion Cymru neu eu hasiantau'n cynnal archwiliadau a allant fod yn ddirybudd neu o fewn cyfnod rhybuddio byr iawn.
2. Bydd y Buddiolwr:

  i) caniatáu i swyddogion awdurdodedig Gweinidogion Cymru neu Berson Awdurdodedig wirio yr holl fanylion yn eich Datganiad o Ddiddordeb a'ch Contract; y manylion yn eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb a'r hawliad. Bydd hyn yn cynnwys gwirio dyddiadau prynu'r cyfarpar, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r offer a'r gwaith adeiladu (ble yn briodol) er mwyn sicrhau'ch bod wedi cadw at delerau'r Contract hwn;

  ii) yn rhoi pob cymorth rhesymol i Berson Awdurdodedig mewn perthynas â'r Contract. Os bydd Person Awdurdodedig yn ystyried bod angen, bydd y Buddiolwr yn mynd gyda'r Person Awdurdodedig.

3. Rhaid i'r Buddiolwr sicrhau bod unrhyw wybodaeth, llyfrau cofnodion, cyfrifon, derbynebau neu ddata arall ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys data cyfrifiadur y gall y Person Awdurdodedig ofyn yn rhesymol amdanynt at ddibenion dilysu cydymffurfiaeth â thelerau'r Contract.
4. Bydd y Buddiolwr yn darparu'r wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo ganiatáu i'r Person Awdurdodedig gymryd copïau neu ddyfyniadau o unrhyw rai o'r dogfennau neu gofnodion hynny.
5. Bydd y Buddiolwr yn cadw'r holl anfonebau, cyfrifon neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r ymrwymiadau ar ôl taliad olaf y cynllun, gan gynnwys copïau o ddogfennau gwreiddiol am o leiaf saith blynedd.
6. Bydd y Buddiolwr yn cydsynio i Weinidogion Cymru gysylltu ag awdurdodau perthnasol eraill i geisio datgelu gwybodaeth yn unol ag unrhyw ymholiadau y gall Gweinidogion Cymru fod am eu gwneud i ddilysu gwybodaeth a ddarparwyd gan y Buddiolwr.
7. Bydd y Buddiolwr, ar gais, yn darparu manylion unrhyw daliadau a dderbyniwyd neu sy'n ddyledus gan unrhyw gorff y llywodraeth neu gorff cyhoeddus, neu bolisi yswiriant, mewn perthynas â'r eitemau cyfalaf i Weinidogion Cymru.
8. Bydd y Buddiolwr yn hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith os bydd yn derbyn unrhyw gynnig o gyllid neu gytundeb mewn perthynas â rheoli unrhyw ran o'r eitemau cyfalaf gan unrhyw unigolyn neu gorff ar wahân i Weinidogion Cymru.
9. Bydd y Buddiolwr yn caniatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, Person Awdurdodedig neu gontractwr trydydd parti fynd at yr eitemau cyfalaf at ddibenion monitro a gwerthuso canlyniadau'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Contract.
10. Bydd y Buddiolwr yn caniatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, Person Awdurdodedig neu gontractwr trydydd parti fynd at yr eitemau cyfalaf at ddibenion cynnal archwiliad terfyn y cynllun ar ôl talu'r grant olaf.
11. Bydd y Buddiolwr a Gweinidogion Cymru yn cytuno fod unrhyw ymddygiad sy'n arwain at wrthod caniatáu cynnal archwiliad, peidio â chydweithio â'r cais i archwilio, rhwystro Person Awdurdodedig rhag archwilio neu beidio â rhoi cymorth rhesymol yn cael ei drin fel tor-contract yn unol â Chymal 6, a bydd hynny'n arwain at leihau, casnlo neu adennill taliadau'r SPG.

## Cosbau a Thramgwyddau

1. Gall Gweinidogion Cymru osod cosbau, a all arwain at wrthod talu taliadau, yn rhannol neu'n llawn, gan gynnwys terfynu'r contract, am:

   i) dorri Contract (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, torri Rheolau'r Cynllun a nodir yn Adran 2 ac Archwiliadau a Chadw Cofnodion a nodir yng Nghymal 5);

   ii) Anghysondebau a thorri amodau wrth hawlio'r SPG.

### Torri Amodau'r Cynllun

1. Gall Gweinidogion Cymru ganfod gwariant anghymwys trwy archwiliadau gweinyddol neu archwiliadau fferm a byddant yn hysbysu'r Buddiolwr yn ysgrifenedig.
2. Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysu'r Buddiolwr yn ystod y cam talu am fanylion unrhyw ostyngiadau neu waharddiadau
3. Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl, os nad yw'r meini prawf cymhwyster yn cael eu bodloni.

4. Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl yn llawn neu'n rhannol, os nad yw'r Buddiolwr yn cydymffurfio â'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Contract.
5. Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl yn llawn, lle y gwelir bod y Buddiolwr wedi darparu tystiolaeth ffug er mwyn derbyn y cyllid, neu heb ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol oherwydd esgeulustod.
6. Os bydd y Buddiolwr yn gwneud datganiad ffug neu heb hysbysu Gweinidogion Cymru am newid perthnasol, gellid ei erlyn.

### Adennill Taliadau

1. Mae'n ofynnol mewn amgylchiadau penodol i Weinidogion Cymru adennill taliadau'n llawn neu'n rhannol a gallant arfer y pwerau hyn yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 OS Rhif 3222 (W. 327) fel y'i diwygiwyd.

### Codi Llog

1. Os digwydd i Weinidogion Cymru fod angen adennill unrhyw swm a dalwyd, bydd y Buddiolwr yn ad-dalu'r cyfanswm dan sylw gyda llog, ble y bo'n berthnasol.
2. Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo llog ar gyfer y cyfnod rhwng y dyddiad cau ar gyfer taliad gan y Buddiolwr, a nodir yn y gorchymyn adennill, a naill ai ddyddiad yr ad-daliad neu'r didyniad, ac ni fydd am gyfnod hwy na 60 diwrnod.
3. Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo'r gyfradd llog i'w chodi yn unol â graddfa LIBOR ar y diwrnod hwnnw, gydag ychwanegiad o 1%.

## Y Drefn Apelio a Chwyno

1. Os digwydd bod y Buddiolwr am herio penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'i gontract neu daliad SPG, gall wneud cais ysgrifenedig o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr yn ei hysbysu am benderfyniad Gweinidogion Cymru. Mae'n bosibl cael manylion y broses apelio dau gam gan Ganolfan Cyswllt i Gwsmeriaid RPW.
2. Os yw Buddiolwr yn anfodlon â'r ffordd mae ei achos wedi cael ei drin, gall gwyno dan bolisi a threfn gwyno Llywodraeth Cymru. Gellir cael cyngor o Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

1. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i'r Buddiolwr sut bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r wybodaeth a gedwir ac a gesglir mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw ddogfen arall sy'n cael ei defnyddio, ei chreu neu ei chasglu mewn perthynas â'r Contract hwn.

   Mae hefyd yn egluro'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae manylion llawn i'w cael yn https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-hysbysiad-preifatrwydd

## Dehongli

1. Rhoddwyd penawdau ar y paragraffau er mwyn ei gwneud yn gyfleus i gyfeirio atynt ac ni fyddant mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar ystyr nac effaith unrhyw beth a gynhwysir yn y Contract hwn nac yn rheoli hawliau a rhwymedigaethau'r partïon.

## Llyffetheirio Disgresiwn

1. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn llyffetheirio Gweinidogion Cymru nac yn cyfyngu arnynt fel arall wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau.
2. Os bydd gwrthdaro rhwng telerau'r Contract a'r Rheoliadau ac i'r graddau bod unrhyw rai o gymalau'r Contract hwn yn anghymharus neu'n anghyson â'r Rheoliadau, mae'r Partïon yn cytuno mai darpariaethau'r Rheoliadau fydd yn berthnasol.

## Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Trydydd Parti

1. Yn ogystal ag unrhyw hawl mynediad cyfreithiol presennol sydd gan unrhyw unigolyn at Dir y Contract, lle mae'r Buddiolwr wedi cytuno fel rhan o'r Contract y gall y cyhoedd gael mynediad dros Dir y Contract, mae'r Buddiolwr hwnnw yn ymgymryd i feddu ar bolisi digonol o atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant trydydd parti gydol tymor Contract yr SPG.